De-ddwyrain Cymru – Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (Cam 1)

Adroddiad Terfynol

Tachwedd 2022

www.jbaconsulting.com

Crynodeb Gweithredol

Cefndir y prosiect

Comisiynwyd yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd Cam 1 hwn gan grŵp o un ar ddeg o Awdurdodau Cynllunio Lleol (y Cynghorau) yn Ne-ddwyrain Cymru, gan gynnwys y canlynol:

- Cyngor Dinas Casnewydd,
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent,
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili,
- Cyngor Caerdydd,
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful,
- Cyngor Sir Fynwy,
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf,
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen,
- Cyngor Bro Morgannwg, ac
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Fel arfer, cwblheir Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd mewn tri cham, ac mae'n ofynnol bod lefel manylion y dadansoddiad yn cynyddu gyda phob cam.

Astudiaeth ddesg yw'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd Cam 1 hwn sy'n coladu gwybodaeth a oedd yn bodoli eisoes er mwyn cynnal asesiad eang o beryglon llifogydd posibl ar draws ardal gyfan yr astudiaeth o bob ffynhonnell llifogydd. Mae'r astudiaeth yn nodi ardaloedd sydd â risg uchel bosibl o lifogydd yn ogystal â darparu manylion am ddigwyddiadau llifogydd hanesyddol ac unrhyw fanylion am unrhyw adeileddau neu weithdrefnau rheoli perygl llifogydd presennol.

Mae'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd hefyd yn darparu gwybodaeth am y cyfleoedd i arafu a storio dŵr fel rhan o gynlluniau rheoli llifogydd naturiol, yn ogystal â chanllawiau ar weithredu TAN15 a rheoli perygl llifogydd ar safle datblygu.

Ardal astudio

Mae De-ddwyrain Cymru yn cynnwys rhai o brif ardaloedd trefol Cymru ac yn gartref i brifddinas Cymru, Caerdydd. Mae hanes diwydiannol cyfoethog yn perthyn i'r ardal, o'r glofeydd yng Nghymoedd y De a oedd yn allforio 13 miliwn o dunelli o lo yn eu hanterth yn y 1880au, i'r gweithfeydd dur yng Nghasnewydd a dociau Caerdydd. Mae diwydiannau'r gorffennol wedi llunio tirwedd De Cymru, gan ddylanwadu ar leoliad aneddiadau, sianeli cyrsiau dŵr a lleoliad llystyfiant ar draws yr ardal.

Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, mae De-ddwyrain Cymru yn ymestyn dros 2,800km², o Gas-gwent, lle mae afonydd Gwy a Mynwy yn ei ffinio i'r dwyrain, ar hyd arfordir De Cymru hyd at y Pîl, lle mae Afon Cynffig yn ei ffinio i'r gorllewin. Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n ffurfio ffin ogleddol yr awdurdodau lleol yn Ne-ddwyrain Cymru i raddau helaeth.

Polisi a strategaeth

Adolygwyd deddfwriaeth a pholisïau allweddol fel rhan o'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, gan gynnwys polisïau a strategaethau cenedlaethol megis Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru, Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru. Mae dogfennau rhanbarthol megis Cynlluniau Rheoli Traethlin a Chynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylchoedd hefyd wedi'u hadolygu i ddeall polisïau penodol sy'n ymwneud â pherygl llifogydd ac erydu arfordirol yn y rhanbarth.

Mae TAN15 a pholisi perygl llifogydd hefyd wedi'u hadolygu a'u hamlinellu mewn perthynas â pherygl llifogydd yn yr adran hon.

Perygl llifogydd

Mae'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd wedi nodi perygl llifogydd o bob ffynhonnell ar draws ardal yr astudiaeth ac wedi darparu gwybodaeth yn ymwneud â'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ddeall y perygl llifogydd hwn. Mae'r broses gynllunio'n ymwneud yn bennaf â lleoliad derbynyddion, ac yn rhoi ystyriaeth briodol i ffynonellau a llwybrau posibl a allai roi'r derbynyddion hynny mewn perygl. Mae'n bwysig felly diffinio elfennau peryglon llifogydd er mwyn cymhwyso'r canllawiau hyn mewn modd cyson.

Cynhaliwyd adolygiad o berygl llifogydd o bob ffynhonnell llifogydd ym mhob un o'r deg ardal awdurdod lleol. Dylid defnyddio'r asesiad hwn ar y cyd â'r atodiadau mapio er mwyn deall y perygl llifogydd ar raddfa strategol.

Canllawiau TAN15 pellach

Ar gyfarwyddyd y Gweinidog Newid Hinsawdd, wedi'i ddarparu yn y canllawiau i gyd-fynd â'r hysbysiad penderfynu i ohirio ei weithrediad, paratowyd yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd hwn yn unol â'r TAN15 a ddiweddarwyd, sydd i'w roi ar waith o fis Mehefin 2023 ymlaen. Yn dilyn hyn, mae Llywodraeth Cymru a CNC wedi cyhoeddi rhagor o eglurhad a chyngor. Nod y bennod ganlynol yw ceisio casglu'r cyngor a dealltwriaeth ddiweddaraf o'r TAN15 newydd. Yn ogystal â hyn, darperir canllawiau ar sut mae Awdurdodau Cynllunio Lleol y rhanbarth yn bwriadu dehongli a chymhwyso'r TAN15 newydd.

Mae'r canllawiau a'r argymhellion yn y bennod hon yn seiliedig ar y canlynol:

- Llythyr gweinidogol; 23 Tachwedd 2021. Cyhoeddiad i ohirio'r TAN15 newydd tan 1 Mehefin 2023.
- Llythyr y Prif Gynllunydd; 15 Rhagfyr 2021. Cyngor i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar ohirio'r TAN15, y goblygiadau allweddol, a chamau gweithredu yr Awdurdodau Cynllunio Lleol.
- Ymgynghoriadau amrywiol gyda LlC a CNC wrth baratoi'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd.

Gofynion ar gyfer Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd

Cynhelir Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd safle-benodol gan (neu ar ran) datblygwyr er mwyn asesu risg a chanlyniadau llifogydd i safle datblygu arfaethedig, a risg a chanlyniadau'r datblygiad hwnnw i dir trydydd partïon. Darparwyd cyngor ar baratoi Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd fel rhan o'r adroddiad hwn.

Lliniaru perygl llifogydd a chynllunio ymatebion i lifogydd

Mae TAN15 yn amlinellu'r rôl ategol sydd gan reoliadau cynllunio ac adeiladu i reoli llifogydd, a'r gofyniad i ddefnyddio mesurau lliniaru llifogydd a gwrthsefyll difrod i sicrhau canlyniadau llifogydd sy'n dderbyniol. Rhaid i unrhyw ddatblygiad

newydd ym Mharthau 2 a 3 a pharthau gwarchodedig TAN15 fod â'r gallu i wrthsefyll llifogydd wedi'i ymgorffori ar lefel safle ac eiddo. Lle bo modd, dylid parhau i gyfeirio datblygiadau at Barth Llifogydd 1 (ble mae llai o risg o lifogydd). Ni fyddai datblygiad hynod fregus ym Mharth Llifogydd 3 yn cael ei ystyried yn dderbyniol oherwydd y canlyniadau sy'n gysylltiedig â llifogydd, ac ni ddylid cynnig ceisiadau cynllunio.

Mae cynllunio ymatebion i lifogydd yn un opsiwn a all helpu i reoli digwyddiadau sy'n ymwneud â llifogydd. O safbwynt perygl llifogydd, gellir rhannu cynllunio ar gyfer ymateb i lifogydd yn dri cham yn fras: cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd. Mae'r mesurau hyn yn golygu datblygu a chynnal trefniadau i leihau, rheoli neu liniaru effaith a chanlyniadau llifogydd a gwella gallu pobl ac eiddo i amsugno llifogydd, ymateb iddynt, ac ail-gryfhau ar ôl iddynt ddigwydd.

Mae cyngor ac arweiniad ar weithio gyda phrosesau naturiol a Rheoli Llifogydd yn Naturiol hefyd wedi'u paratoi.